

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 8 Mehefin 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Hybrid, Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 (Tudalennau 3 - 6)**
- 5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 16)**
- 6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 17 - 102)**
- 7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 103 - 114)**
- 8. Apeliadau (Tudalennau 115 - 122)**
- 9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Siân Maehrlein, Chris James, Mark Strong a Carl Worrall

Hefyd yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Mr Sam Pugh - Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, De, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro, Mr Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth, Datblygu Priffyrdd, Mr Shaun Greatrix, Peiriannydd Uwch a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democraidd a Swyddog Safonau

(10:00am-12:40pm)

1 Personol

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

2 Ymddiheuriadau

Dim.

3 Datgelu Buddiannau Personol a/neu Fuddiannau sy'n Rhagfarnu

Datgelodd Y Cynghorydd Rhodri Evans fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A201012, A220815 ac A230102.

Datgelodd Y Cynghorydd Marc Davies fudd personol yng Nghais A230102.

Datgelodd Mr Russell Hughes-Pickering fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230162.

4 Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2023

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2023 yn gywir

Materion yn codi

Dim.

5 Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor

Dim.

Tudalen 4

6 Ceisiadau Datblygu, Hysbysebu, Statudol a'r Awdurdod Lleol

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch Ceisiadau cynllunio datblygu, hysbysebu; statudol a'r awdurdod lleol:-

A201012 Newid Defnydd Tir Amaethyddol i fod yn safle Podiau Glampio, Caeau i'r De-ddwyrain o Bantfod, Llanddewi Brefi, Tregaron

Nodi bod y cais wedi cael ei **DYNNU'N ÔL** o'r agenda, oherwydd y cafwyd gwybodaeth bellach gan yr asiant ar ôl cyhoeddi'r agenda i'w hystyried gan y swyddogion.

Anerchodd Mr Paul Nicholls (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A220398 Annedd mewnlenwi arfaethedig, Tir Gerllaw Uwch-y-nant Borth

GOHIRIO'R cais er mwyn caniatáu amser pellach neu gyfnod 'callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, er mwyn ystyried a oes unrhyw ystyriaethau perthnasol y dangosir tystiolaeth ddigonol ohonynt i wrthbwysu'r polisïau, ystyried arwyddocâd y gwyro ac ystyried y risgiau sydd ynghlwm â chymeradwyo'r penderfyniad, cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

A220815 Codi sied amaethyddol i gadw tail buarth, Llanio Fawr, Tregaron

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

Anerchodd Mr Tim Rainbird (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A230028 Codi 1 uned fanwerthu (Dosbarth A1) a chreu ardal arddangos allanol, mynediad a threfniadau gwasanaethu, lle parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig, Tir yn Ffordd y Baddondy, Aberteifi

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau .

Anerchodd Ms Samantha Davies (gwrthwynebydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230102 Ysgol Gynradd un llawr newydd gydag Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Canolfan Iaith, Meithrin, ffordd fynediad newydd a lle parcio, MUGA a Chae 3G llifoleuedig gydag adeilad Storio/Toiled, cyfleusterau chwistrellu, is-orsaf, lle gwasanaeth a lle storio sbwriel, gwaith tirlunio gan gynnwys ffens, triniaethau ffin a llwybrau, a gwelliannau i'r palmant wrth ymyl y briffordd, Ysgol

Tudalen 5

Gynradd Dyffryn Aeron, Ffordd Llanbedr Pont Steffan, Felin-fach, Llanbedr Pont Steffan

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

Anerchodd Mr Keith Davies y Pwyllgor ar ran Grŵp Preswylwyr Llangawsai (gwrthwynebydd) yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230162 Dymchwel 2 uned ystafell ddosbarth Dros dro ac 1 garej a'u disodli gyda bloc deulawr newydd o 10 ystafell ddosbarth, tanc chwistrellu cysylltiedig, gwaith allanol a gwaith tirlunio, Ysgol Gymraeg, Plascrug, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth

GOHIRIO'R penderfyniad er mwyn cael ymateb boddhaol gan ymgynghorai, sef NRW, ynghylch llifogydd, halogi tir ac arolwg ystlumod, a hefyd, ceisio eglurhad gan gynrychiolaeth o swyddogion i gymeradwyo/gwrthod y cais gan bod y Swyddog Corfforaethol Arweiniol dros yr Economi ac Adfywio wedi datgan budd yn y cais. Cyflwynir y cais gerbron y Pwyllgor eto ar ôl cael y wybodaeth gan yr ymgynghoreion.

7 Ceisiadau Cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 Apeliadau Cynllunio

CYTUNWYD nodi'r apeliadau cynllunio a oedd wedi dod i law.

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023

Cadeirydd:- _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A220398	01-06-2022	Kieran Mathews	Proposed infill dwelling	Land Adjacent Uwch-y-nant Borth, SY24 5NY	Refuse

1.1. A220398



Tudalen 9

Rhif y Cais / Application Reference	A220398
Derbyniwyd / Received	01-06-2022
Y Bwriad / Proposal	Proposed infill dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Land Adjacent Uwch-y-Nant, Borth, SY24 5NY
Math o Gais / Application Type	Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved
Ymgeisydd / Applicant	Kieran Mathews, Glan Dylan Cottage Ynyslas, Ynyslas, SY24 5JX
Asiant / Agent	Mr P Nicholls (ArchiSpec Architectural Consultants Ltd), Stiwdio Gido, Cwm Gido Gilfachreda, New Quay, SA45 9SS

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae'r safle tua 620m i'r de-ddwyrain o anheddiad Borth ac mae'n wynebu ffordd Sirol sy'n cysylltu Borth Uchaf â Llandre. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion domestig ar hyn o bryd mewn perthynas ag eiddo Uwch y Nant. I'r dwyrain o'r safle y mae eiddo cyfagos Pant Glas. Mae'r ardal gerllaw yn cynnwys rhes o bump o anheddau ar ochr ddeheuol y ffordd Sirol.

Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo a elwir yn Pant Glas yn 1987 ac eto yn 1988, a rhodddwyd caniatâd ar gyfer yr eiddo Uwch y Nant yn 1991. Yn 2011, ac yn groes i argymhelliad y swyddog, rhodddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer annedd ar y parcel hwn o dir, ac eto yn 2012, serch bod safle'r cais ychydig yn llai. Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl, ac mae'r ddau ganiatâd wedi dod i ben erbyn hyn.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio i godi annedd ar y parcel hwn o dir, gyda'r holl faterion, ar wahân i fynediad a maint, yn amodol ar gymeradwyaeth yn y dyfodol.

Mae'r cynlluniau'n dangos annedd o'r maint canlynol:-

Arwynebedd – dim mwy na 137m² net o arwynebedd llawr defnyddiadwy;

Lled – Isaf 13m Uchaf 18m;

Dyfnnder - Isaf 5.5m Uchaf 9.5m;

Uchder (at y bondo) - Rhwng 2.6m a 5.6m;

Uchder (at y grib) - Rhwng 4.3m a 6.8m.

Bwriedir creu mynedfa i'r safle drwy ledur'r fynedfa gerbydau bresennol i Uwch y Nant. Bwriedir cael llain weledd o 2.4m x 43m.

Y bwriad yw darparu annedd fforddiadwy ar gyfer un o'r trigolion lleol sy'n gweithio ar y môr ar hyn o bryd fel Morlywiwr Cenedlaethol. Cyflwynwyd asesiad o'r angen am dai fforddiadwy gyda'r cais, sy'n dangos nad oes unrhyw eiddo ar gael yn y Borth a'r ardal gyfagos sy'n dod o fewn y categori tai fforddiadwy, ac sy'n addas i'w amgylchiadau. Mi fyddai'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer annedd fforddiadwy, yn ariannol ac o ran deiliadaeth.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)
- PPW11 Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 11, Chwefror 2021)

Mae'r polisiâu canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Gymraeg

DM03 Teithio Cynaliadwy

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

Tudalen 10

DM10 Dylunio a Thirlunio

DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol

S01 Twf Cynaliadwy

S04 Datblygu Mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill

S05 Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebier gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain

YMATEBION YMGYNGHORI

Ecoleg Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gontract

Draenio Ceredigion - Sylwadau

Priffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gontract

Cyngor Cymuned Y Borth – Dim ymateb

Derbyniwyd sylwadau gan drydydd parti yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail colli preifatrwydd; cysgodi; colli man agored, a phryderon ynghylch diogelwch ar y priffyrdd.

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: *"If regard is to be had to the development plan for*

Tudalen 11

the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

Mae safle'r cais wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad agored tua 620m o Ganolfan Gwasanaethau Gwledig y Borth, ac er bod gan y safle hanes o ganiatâd cynllunio ar gyfer annedd, mae pob caniatâd wedi dod i ben erbyn hyn.

O ran Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion mae safle'r cais yn dod o fewn y categori 'lleoliadau eraill' lle mae datblygu'n cael ei reoli'n llym er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy a gwarchod cefn gwlad agored.

Mae Polisi S04 y CDLI yn nodi bod datblygu tai yn gyffredinol yn amhriodol o fewn 'lleoliadau eraill' oni bai bod modd ei gyfiawnhau ar sail y ffaith ei fod yn cwrdd ag angen am dai fforddiadwy nas diwallwyd yn yr ardal, a'i fod yn cydymffurfio â pholisi S05; neu'r angen am annedd menter yn unol â TAN 6.

Nid oes angen safle'r cais at ddibenion TAN 6 ond yn hytrach mae'r cynnig yn ymwneud â darparu annedd fforddiadwy. Cyflwynwyd datganiad tai fforddiadwy i gefnogi'r cais, fel tystiolaeth o'r angen, y galw a'r cyfiawnhad dros annedd fforddiadwy yn yr ardal.

Mae Polisi S04 yn gofyn bod tai fforddiadwy wedi'u lleoli'n union gerllaw grwpiau presennol o anheddau yn unol â bwriadau paragraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru. Fodd bynnag mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddarau ers hynny, gyda pharagraff 3.60 yn gofyn bod tai a ddatblygir yng nghefn gwlad wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw aneddiadau, lle gellir darparu orau ar eu cyfer yn nhermau seilwaith, mynediad, cynefin a gwarchod y dirwedd. Mae'n nodi y gall mewnlenni neu estyniadau bach i aneddiadau presennol fod yn dderbyniol, yn arbennig os ydyn nhw'n cwrdd ag angen lleol am dai fforddiadwy, ond bod angen cadw rheolaeth lem ar unrhyw adeiladau newydd sydd o fewn ardal cefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau presennol.

Er bod safle'r cais o fewn grŵp o bump o anheddau, mae'r safle cryn bellter i ffwrdd o brif adeiladau'r dref ac anheddiad dynodedig y Borth. Ni ellid ei ddisgrifio felly fel datblygiad oedd o fewn neu gerllaw unrhyw anheddiad. Hefyd, does dim palmantau rhwng safle'r cais â'r Borth i ganiatáu cerdded yn ddiogel, a hefyd does dim trafndiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded diogel o safle'r cais. Mi fyddai'r deiliaid felly'n llwyr ddibynnol ar ddefnydd o gerbyd preifat i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hyn yn mynd yn groes i bolisiau cynllunio cenedlaethol a lleol sy'n ceisio hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy, drwy sicrhau bod tai'n cael eu datblygu mewn lleoliadau lle gellir cyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded neu feicio yn y lle cyntaf, yna drwy drafndiaeth gyhoeddus, ac yn olaf drwy ddefnyddio cerbydau modur preifat.

Cafodd safiad y polisi cenedlaethol diweddaraf ei danlinellu gan yr Arolygydd Cynllunio mewn penderfyniad galw i mewn yn Llwydlo, Aberarth, ac mae'n berthnasol i'r cais hwn. Gan droi at dai fforddiadwy, mae polisi S04 y CDLI yn nodi, o fewn Lleoliadau Eraill, yn nhermau tai fforddiadwy, y dylai tai newydd gael eu lleoli'n union gerllaw grwpiau presennol o anheddau yn unol â bwriadau paragraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru a pharagraff 10.13 TAN 2. Mae'r cyfeiriad at baragraff 9.2.22 yn ymwneud ag argraffiad 9 o Bolisi Cynllunio Cymru, sydd wedi'i ddisodli erbyn hyn yn sgil cyhoeddi Argraffiad 10. Fodd bynnag, mae paragraff 3.56 o Argraffiad 10, y cyfeirir ato uchod, yn adlewyrchu'n bennaf yr hyn a geir ym mharagraff 9.2.22 o'r argraffiad blaenorol, er ei fod wedi'i ddiwygio i gyfeirio at fewnlenni neu estyniadau bach i aneddiadau (fy mhwyslais i) yn hytrach na grwpiau (fy mhwyslais i) o anheddau. Mae paragraff 4.2.34 o Argraffiad 10 a pharagraff 10.13 o TAN 2 yn ategu y dylai safleoedd gwledig sydd wedi'u heithrio ar gyfer tai fforddiadwy fod ar dir sydd o fewn, neu'n union gerllaw aneddiadau gwledig presennol. Dylai tai fforddiadwy ar safleoedd o'r fath ddiwallu anghenion pobl leol am byth a chyfrif tuag at y ddarpariaeth dai yn gyffredinol.

Mae Cymru'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu o fewn aneddiadau cynaliadwy. Mae'n nodi bod aneddiadau gwledig ffyniannus, cydnerth a chynaliadwy yn rhai sy'n cynnwys cymysgedd cyfoethog o dai, cyflogaeth, gwasanaethau a seilwaith, wedi'u lleoli yn y mannau iawn i ddiwallu anghenion a dyheadau'r boblogaeth ar gyfer y dyfodol.

Ystyrir nad yw safle'r dablygiad arfaethedig o fewn anheddiad nac yn agos at unrhyw rai o'r gwasanaethau a'r seilwaith uchod, ac felly ystyrir nad yw'r lleoliad yn un cynaliadwy. Hefyd, byddai ychwanegu'r datblygiad yn creu mwy o anghydwysedd rhwng y ganolfan gwasanaethau â lleoliadau eraill, yn groes i Bolisi S04.

Er nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o bersbectif priffyrdd, draenio ac ecoleg, nodir bod gwrthwynebiad trydydd parti wedi'i dderbyn ar sail golli preifatrwydd, cysgodi, colli man agored a diogelwch ar y priffyrdd. Nodir seiliau'r gwrthwynebiad.

I gloi, byddai darparu annedd, serch ei gyflwyno fel uned fforddiadwy, yn y lleoliad hwn yng nghanol cefn gwlad agored yn mynd yn groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy, a byddai'n arwain at ffurf datblygu annerbyniol o fewn cefn gwlad agored. Mae'r cynnig yn mynd yn groes i bolisiau cynllunio cenedlaethol a lleol.

RHESYMAU DROS GYFEIRIO'R CAIS AT SYLW'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU: -

Mae'r Cynghorydd Hugh Hughes wedi gofyn bod y cais yn cael ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y rhesymau canlynol:-

Tudalen 12

- Mae'r ardal dan sylw o fewn anheddiad ac mae'r cais ar gyfer anedd fforddiadwy o fewn yr anheddiad hwnnw;
- Mae'r ymgeisydd yn berson lleol a dyfodd i fyny yn y Borth gan fynychu'r ysgol leol. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel masnachlongwr ac mae i ffwrdd am 3 mis ar y tro. Mae bellach am ymgartrefu yn ymyl ei dad.

ARGYMHELLIAD:

Gwrthod y cais am ei fod yn groes i bolisiâu lleol a chenedlaethol.

RHESWM DROS OHIRIO:

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y 10fed o Fai, 2023, penderfynodd yr Aelodau ohirio gwneud penderfyniad ar y cais, er mwyn caniatáu mwy o amser neu gyfnod "ail feddwl" i ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau. Yn fwy penodol, i ystyried a oes unrhyw ystyriaethau perthnasol sydd â thystiolaeth ddigonol i orbwyso'r polisiau, ystyried arwyddocâd y gwriad ac i ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chaniatáu'r cais, cyn adrodd y mater yn ôl i'r Pwyllgor.

Cyfarfu'r Grŵp Oeri ar y 23ain o Fai, 2023, lle rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth llawn i'r pwyntiau a godwyd uchod. Sylwch nid oedd y Cyng. Ceris Jones yn bresennol.

Er bod Aelodau'r grŵp yn derbyn nad yw'r safle wedi'i leoli o fewn ffiniau diffiniedig Y Borth, a'u bod yn deall felly pam yr oedd swyddogion yn argymhell gwrthod y cais, roedd y grŵp serch hynny o'r farn bod ystyriaethau perthnasol eraill yn yr achos hwn a oedd yn cyfiawnhau caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog.

Yn gyntaf, tra eu bod yn cydnabod bod y safle y tu allan i ffiniau diffiniedig yr anheddiad, nododd yr Aelodau fodd bynnag fod y safle yn agos iawn i Borth, lle mae gwasanaethau a chyfleusterau digonol ar gael i wasanaethu anghenion dyddiol. Roedd yr aelodau'n gweld agosrwydd Y Borth fel Canolfan Gwasanaeth Gwledig yn factor pwysig yn yr achos hwn, sy'n wahanol i'r achosion a ystyriwyd yn flaenorol gan y grŵp, a oedd â chyd-destun mwy gwledig.

Dywedodd yr aelodau hefyd fod y plot wedi'i leoli rhwng datblygiadau presennol, ac roedd felly'n cynrychioli cyfle mewnlenni yn hytrach na ffurf fwy achlysurol neu rhubanaidd o ddatblygiad. Yn ogystal, dywedodd yr Aelodau hefyd fod y safle yn agos iawn at Barc Gwyliau Brynowen.

Ymhellach, rhoddodd yr Aelodau bwysau sylweddol ar y ffaith bod caniatad wedi cael ei rhoi ar ddau achlysur yn y gorffennol ar gyfer datblygiad preswyl ar y safle hwn. Er gwaethaf y ffaith bod y ddau ganiatad hyn bellach wedi dod i ben, roedd yr Aelodau o'r farn bod cynsail wedi'i gosod gan y ddau caniatad cynllunio blaenorol.

Yn olaf, roedd yr Aelodau'n bryderus y bu diffyg cyflenwad tai o fewn yr anheddiad ei hun ac roeddent o'r farn bod angen i'r Cyngor ddarparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl, gan fod pobl lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad.

I gloi felly, roedd yr Aelodau o'r farn bod ystyriaethau perthnasol eraill yn yr achos hwn a oedd yn ddigonol i orbwyso'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn y datblygiad. Felly argymhelliad y Grŵp Oeri oedd i argymhell i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu bod y cais yn cael ei gymeradwyo.

Tudalen 13

Rhif y Cais / Application Reference	A220398
Derbyniwyd / Received	01-06-2022
Y Bwriad / Proposal	Proposed infill dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Land Adjacent Uwch-y-Nant, Borth, SY24 5NY
Math o Gais / Application Type	Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved
Ymgeisydd / Applicant	Kieran Mathews, Glan Dylan Cottage Ynyslas, Ynyslas, SY24 5JX
Asiant / Agent	Mr P Nicholls (ArchiSpec Architectural Consultants Ltd), Stiwdio Gido, Cwm Gido Gilfachreda, New Quay, SA45 9SS

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The site is some 620m to the southeast of the settlement of Borth and fronts onto a County road which connects Upper Borth with Llandre. The site is currently used for domestic purposes in association with the property of Uwch y Nant. To the east of the site is the neighbouring property of Pant Glas. The immediate area is characterised by a row of five dwellings on the southern side of the County road.

Planning permission was granted for the property known as Pant Glas in 1987 and 1988 respectively, whilst permission was approved for the property of Uwch y Nant in 1991. In 2011 and contrary to officer recommendation, outline planning permission was granted for a dwelling on this parcel of land and again in 2012 albeit the application site being slightly smaller. No applications for reserved matters were ever submitted and both permissions have now lapsed.

DETAILS OF DEVELOPMENT

Outline planning permission is sought for the erection of a dwelling on this parcel of land with all matters apart from access and scale subject to future approval.

The plans show a dwelling with the following scale parameters:-

Area - no greater than 137m² net usable floor area;

Width - Min 13m Max 18m;

Depth - Min 5.5m Max 9.5m;

Height (to eaves) - Between 2.6m and 5.6m;

Height (to ridge) - Between 4.3m and 6.8m.

Access to the site is to be created by widening the existing vehicular access to Uwch y Nant. A 2.4m x 43m visibility splay is proposed.

The proposal is for the provision of an affordable dwelling to a local person who is currently at work on sea as an international Marine Navigator. An affordable housing needs assessment was submitted with the application which indicates that there are no properties available in the Borth and immediate area which falls within the affordable price bracket which meets his circumstances. The applicant would meet both the occupancy and financial criteria for an affordable dwelling.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Relevant National Planning Policy:

- Future Wales - The National Plan 2040 (2021)
- PPW11 Planning Policy Wales (Edition 11, February 2021)

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language

DM03 Sustainable Travel

DM06 High Quality Design and Placemaking

Tudalen 14

DM10 Design and Landscaping

DM11 Designing for Climate Change

DM13 Sustainable Drainage Systems

DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

DM15 Local Biodiversity Conservation

S01 Sustainable Growth

S04 Development in Linked Settlements and Other Locations

S05 Affordable Housing

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Ceredigion Ecology - No objection STC

Ceredigion Drainage - Comments

Ceredigion Highways - No objection STC

Cyngor Cymuned Y Borth Community Council - No response

One third party representation received objecting the proposal on grounds of loss of privacy; overshadowing; loss of open space and highway safety concerns.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development

Tudalen 15

plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

The application site lies in an open countryside location approximately 620m from the Rural Service Centre of Borth and whilst the site has history of planning permissions for a dwelling all consents have now lapsed.

As far as the Ceredigion Local Development Plan is concerned the application site falls within the 'other locations' category where development is strictly controlled in the interest of achieving sustainable development and protecting the open countryside.

LDP Policy S04 states that general housing is inappropriate within 'other locations' unless justified on the basis that it meets a demonstrated unmet affordable housing need in the locality and accords with Policy S05; or need for a rural enterprise dwelling in line with TAN 6.

The application site is not required for TAN6 purposes but rather the proposal is for the provision of an affordable dwelling. An affordable housing statement has been submitted in support of this application as evidence to demonstrate the need, demand and justification for an affordable dwelling in the area.

Policy S04 requires affordable housing to be located immediately adjacent to existing groups of dwellings in line with the intentions of Planning Policy Wales (PPW) paragraph 9.2.22. However, PPW has since been updated with paragraph 3.60 requiring development in the countryside to be located within and adjoining settlements where it can be best accommodated in terms of infrastructure, access, habitat and landscaping conservation. It states that infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable in particular where they meet a local need for affordable housing, but that new building in the open countryside away from existing settlements must continue to be strictly controlled.

Whilst the application site is within a group of five dwellings the site is a fair distance away from the main built form and designated settlement of Borth. It would therefore not be described as being within or adjoining any settlement. Furthermore, there are no pavements from the application site to Borth to allow safe walking, and there is also no public transport provision within a safe walking distance of the application site. Occupiers would therefore be solely reliant on the use of a private vehicle to access services and facilities. This is contrary to national and local planning policy which seek to promote sustainable means of travel by ensuring that housing development are built in locations where services and facilities can be accessed in the first instance by walking and cycling, then by public transport and then finally by private motor vehicles.

The updated national policy stance was emphasised by the Planning Inspector on a call-in decision at Llwydlo, Aberarth and is applicable to this application. *Turning to affordable housing, LDP policy S04 states that in Other Locations, in terms of affordable housing, new housing should be located immediately adjacent to existing groups of dwellings in line with the intentions of paragraph 9.2.22 of PPW and paragraph 10.13 of TAN 2. The reference to paragraph 9.2.22 is to edition 9 of PPW which has now been superseded by the publication of Edition 10. However, paragraph 3.56 of Edition 10, referred to above, largely reflects that of paragraph 9.2.22 of the previous edition although has been amended to refer to the infilling or minor extension of settlements (my emphasis) rather than groups (my emphasis) of dwellings. Paragraph 4.2.34 of Edition 10 and paragraph 10.13 of TAN 2 reiterate that rural exception sites for affordable housing should be on land within or adjoining existing rural settlements.*

Affordable housing on such sites should meet the needs of local people in perpetuity and count towards the overall level of housing provision.

Future Wales reiterates the importance of development within sustainable settlements. It notes that thriving, resilient and sustainable rural settlements are characterised by a rich mix of housing, employment, services and infrastructure located in the right places to meet the needs and future aspirations of the population.

The proposed development site is not considered to be within a settlement or close proximity to any of the above services and infrastructure and therefore, the location is not considered sustainable. Furthermore, the addition of the development would create a greater imbalance of housing between the service centre and other locations, contrary to Policy S04.

Whilst there are no objections to the proposal from a highways; drainage and ecological perspective it is noted that a third party objection was received on grounds of loss of privacy, overshadowing, loss of open space and highway safety. The grounds of objection are noted.

To conclude, the provision of a dwelling, irrespective being presented as an affordable unit, at this location in open countryside is contrary to the principles of sustainable development and will result in an unacceptable form of development in the open countryside. The proposal is contrary to both national and local planning policy.

Tudalen 16

REASONS FOR REFERRING THE APPLICATION TO THE DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE: -

Cllr. Hugh Hughes has requested that the application be referred to the the Development Management Committee for consideration for the following reasons:-

- The area concerned is within a settlement and that the applicant is for an affordable house within that settlement;
- The applicant is a local who grew up in Borth and attended school locally. He currently works as a merchant seaman and is away for 3 months at a time. He is looking to settle his family home next to his father.

RECOMMENDATION:

Refuse the application as being contrary to both national and local policy.

REASON FOR DEFERRING:

At the Development Management Committee meeting on the 10th May, 2023, Members resolved to defer the determination of the application, in order to allow further time or a 'cooling off' period to consider the points raised by Members. More specifically, to consider whether there are any material considerations that are sufficiently evidenced to outweigh the policies, to consider the significance of the departure and to consider the risks associated with approving the application, prior to reporting the matter back to Committee.

The Cooling Off Group subsequently met on the 23^d May, 2023, whereby Members gave full consideration to the points raised above. Please note that Cllr. Ceris Jones was not in attendance.

Whilst Members of the group accepted that the site is not located within the defined settlement boundaries for Borth, and understood therefore why Officers were recommending the refusal of the application, the group were nevertheless of the opinion that there were other material considerations in this case that would justify approving the application contrary to officer recommendation.

Firstly, whilst acknowledging that the site lies outside of the defined settlement boundaries, Members noted however that the site lies within very close proximity to the settlement, where there are adequate services and facilities available to serve the daily needs of the future occupiers. Members saw the proximity of Borth as a Rural Service Centre as being an important factor in this case, which is different to the cases previously considered by the group, which have had a more rural context.

Members also commented that the plot had built form to either side, thereby representing an infilling opportunity as opposed to a more sporadic or ribboning form of development. Additionally, Members also commented that the site also lies within very close proximity to Brynowen Holiday Park.

Furthermore, Members placed significant weight on the fact that consent has been given on two occasions in the past for the residential development of this site. Notwithstanding the fact that these consents have now lapsed, Members considered that a precedent had been set by these previous planning permissions.

Finally, Members were concerned that there had been a lack of housing delivery within the settlement itself and they were of the opinion that the Council needed to deliver as many affordable homes as possible, as local people were being priced out of the market.

In conclusion therefore, Members considered that there were other material considerations in this case that were sufficient to outweigh the policy presumption against the development. The recommendation of the Cooling Off Group therefore was to recommend the approval of the application to the Development Management Committee.

2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A201012	01-12-2020	Mr O Jones	Change of Use of Agricultural Land to Glamping Pod site	Fields South East of Pantyfod, Llanddewi Brefi, Tregaron. SY25 6PE	Refuse
2	A210384	15-04-2021	Mrs A Jaques-Clarke & Miss L J Bennett	Change of use and conversion of redundant agricultural building to a children's nursery.	Redundant Outbuilding @ Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, SA38 9EX	Refuse
3	A220035	10-01-2022	Mr and Mrs G & B Davies	Erection of a rural enterprise dwelling and workshop.	Fferm Cwmcoedog, Mydroilyn, Lampeter, SA48 7RL	Refuse
4	A220250	27-03-2022	Mr D J Evans	Erection of a detached block of flats, six storeys in height (sixth storey within roof space), containing 24 units with associated car parking and communal amenity spaces.	Area of land adjacent to the Brynderw Building, Stanley Road, Aberystwyth. SY23 1LB	Approve Subject to Conditions
5	A220454	21-06-2022	Mrs Mair Jenkins	Residential development of up to three dwellings.	Land At Plwmp Plwmp, Llandysul	Refuse
6	A220714	26-09-2022	Mr Matthew Vaux	Demolition of existing produce shop to be replaced with new shop and first floor flat	Parc y Pant Produce Shop, Cross Inn, New Quay. SA44 6NG	Approve Subject to Conditions
7	A220763	10-10-2022	Mr M Evans	Proposed replacement dwelling (Demolition at completion), extension to the garden area and associated works.	Allt y Bryn, Beulah, Newcastle Emlyn, SA38 9QH	Refuse

2.1. A201012



Tudalen 19

Rhif y Cais / Application Reference	A201012
Derbyniwyd / Received	01-12-2020
Y Bwriad / Proposal	Change of Use of Agricultural Land to Glamping Pod site
Lleoliad Safle / Site Location	Fields South East of Pantyfod, Llanddewi Brefi, Tregaron. SY25 6PE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr O Jones, Penlanwen, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6PE
Asiant / Agent	Emmanuel Kincaid (Living Design Consultancy), Glyn, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6RL

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae Penlanwen wedi'i leoli mewn ardal cefn gwlad agored, tua milltir i'r de o bentref Llanddewi Brefi. Mae Penlanwen yn fferm fynydd 550 acer gyda diadell o 800 o ddefaidd mynydd Cymreig.

Mae safle'r cais wedi'i leoli tua 0.5km i'r dwyrain o fferm Penlanwen, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel tir pori amaethyddol.

Does dim hanes cynllunio blaenorol i'r safle.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn un llawn ac mae'n gofyn caniatâd cynllunio i ddarparu pedwar pod glampio ar gyfer llety gwyliau. Mae'r perchnogion am arallgyfeirio i gynhyrchu incwm ychwanegol at fusnes y fferm. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys trac mynediad at y podiau glampio, a gosod pecyn trin carthffosiaeth i gael gwared â charthion. Mae'r cais yn cynnwys cynllun gwarchod coed a thirwedd, sy'n cynnig plannu gwrych i sgrinio'r safle.

Mae'r podiau wedi'u gosod mewn rhes ar ben deheuol cae llethrog sy'n wynebu'r gogledd. Bydd y podiau'n cael eu gosod tua 0.5km o Benlanwen ei hun. Bydd mynediad i gerbydau ar hyd trac presennol, a mynediad o'r briffordd ar hyd y lôn unffordd annosbarthedig. Bydd y podiau'n rhai unllawr 3m o uchder at y grib. Y deunyddiau arfaethedig yw Cladin Pren Naturiol gyda ffenestri a drysau uPVC llwyd.

Cyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygiad ac Anghenion Twristiaeth i gefnogi'r cais.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisiau Cynllunio Cenedlaethol perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)
- PPW11 Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 11, Chwefror 2021)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

Mae'r polisiau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- LU14 Safleoedd Llety Twristiaeth Ledled y Sir: Carafannau Statig a Theithiol, Lleiniau Gwersylla, Cabanau a Chalets
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirlunio
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

Tudalen 20

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhellid, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi – Dim Ymateb

Priffyrdd – Dim Gwrthwynebiad Yn Unol ag Amodau

Draenio Tir – Dim Gwrthwynebiad, Angen Cymeradwyaeth SuDS

Ecoleg – Cynhaliwyd Prawf o Effaith Arwyddocaol Debygol (TLSE) ac Asesiad Priodol am fod safle'r cais yn agos at ACA Afon Teifi. Cafodd y cynnig ei sgrinio fel un nad oedd yn debygol o gael effaith ar Afon Teifi o ganlyniad i ollwng mwy o ffosffad i'r afon. Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gontract.

Naturiol Cymru – Rydym wedi adolygu'r Asesiad Priodol ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar ACA Afon Teifi. Nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

Sylwadau Trydydd Parti

Derbyniwyd tri llythyr o gefnogaeth i'r cais.

Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu gosod y podiau mor bell oddi wrth y brif fferm.

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: *"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise"*.

Mae safle'r cais wedi'i leoli o fewn cefn gwlad agored a nodir ei fod o fewn 'lleoliadau eraill' fel y'u diffinnir yn y CDLI mabwysiedig. Mae polisiâu lleol a chenedlaethol yn nodi y dylai datblygiadau o fewn 'lleoliadau eraill' fod dan reolaeth lem, i sicrhau bod yna ddatblygu cynaliadwy ac i amddiffyn nodweddion cefn gwlad agored.

Mae Polisi S04 y CDLI yn cyfeirio at ddatblygu o fewn 'lleoliadau eraill' ac yn nodi bod angen rhywfaint o ddatblygu i ddiwallu anghenion cymunedau presennol, ond fe'u hystyrir yn leoliadau llai cynaliadwy ar gyfer datblygu. O ganlyniad, mae maen prawf 4 yn gofyn bod unrhyw ddatblygiad o fewn 'lleoliadau eraill' yn nhermau ei leoliad ffisegol, yn cydymffurfio â TAN 6. Mae'r cynnig yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ffermio ym Mhenlanwen, ac fel y cyfryw, mae'n bodloni gofynion TAN 6 a Pholisi S04.

Er nad oes unrhyw bolisi penodol yn ymwneud â chynigion glampio o fewn y CDLI, ystyrir ei bod hi'n rhesymol asesu'r datblygiad dan Bolisi LU14, sy'n cyfeirio at safleoedd gweryslla a chalets. Mae safle'r cais wedi'i leoli tu allan i'r ardal arfordirol am ei fod i'r dwyrain o'r A487 ac felly mae'n dod dan ofynion Polisi LU14.

Yn ôl Polisi LU14, y tu allan i'r ardal arfordirol :

Tudalen 21

a. Caniateir safleoedd newydd ar gyfer carafannau teithiol, gwersylla a llety cabanau ar yr amod:

i. Y bydd hynny, lle bo modd, yn cefnogi canolbwyntiau twristiaeth strategol;

ii. Y bydd yn cefnogi rôl a swyddogaeth yr anheddiad y bwriedir lleoli'r safle ynddo (neu, fel arall, yr anheddiad agosaf), lle mae'n bosibl, drwy ddarparu cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael at ddefnydd y gymuned;

iii. Nad yw'r cyfleusterau a gynigir drwy'r safle yn effeithio ar ddichonoldeb gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn yr anheddiad agosaf; a

iv. Bod Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygiad ac Anghenion Twristiaeth yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae Rhan 7.90 o'r CDLI yn nodi:

"Mewn ardaloedd y tu allan i Ardal yr Arfordir, caniateir safleoedd newydd ar gyfer carafannau teithiol, gan gynnwys cartrefi modur, a meysydd gwersylla, cyn belled â'u bod yn briodol i'r lleoliad. Dylai safleoedd mwy o faint gael eu lleoli o fewn neu gerllaw Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig, lle dylai amrywiaeth ehangach o gyfleusterau a gwasanaethau fodoli'n barod. Gellir lleoli safleoedd llai, nad ydynt efallai ond yn darparu 5 llain ac yn cynnig cyfleusterau sylfaenol, mewn Aneddiadau Cyswllt neu gerllaw ffermydd, os ydynt wedi'u sgrinio'n briodol. Mae'r drefn hon yn cydfynd â Pholisïau S02-S04."

Mae polisïau ategol yn cefnogi safleoedd glampio llai ar yr amod eu bod wedi'u lleoli gerllaw ffermydd, er budd y dirwedd ac at ddibenion swyddogaethol. Ni ystyrir bod y cynnig wedi'i leoli gerllaw'r fferm. Bydd y podiau wedi'u gosod tua 450m i ffwrdd o'r fferm, gyda nifer o gaeau'n gwahanu'r datblygiad arfaethedig oddi wrth fferm Penlanwen ei hun. Dylai'r podiau glampio fod wedi'u gosod yn nes at y gweithgareddau amaethyddol ym Mhenlanwen at ddibenion swyddogaethol, i helpu i reoli safle wersylla fach, ac i leihau effaith y datblygiad ar y dirwedd mewn lleoliad cefn gwlad agored.

Mae'r cais yn cynnwys ystyriaethau dilynniannol i gyflawnhau safle arfaethedig y podiau glampio. Mae'r materion a godwyd yn y prawf dilynniannol yn cynnwys cyfyngiadau topograffaid, fferm foch gerllaw, tir anaddas a chyfyngiadau o ran y briffordd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y gellid gosod y podiau'n nes at y ffem ei hun. Dylai'r ymgeiswyr edrych ar opsiynau i leoli'r podiau glampio mewn man llai amlwg gerllaw fferm Penlanwen.

Ar hyn o bryd nid yw'r podiau wedi'u lleoli gerllaw fferm Penlanwen, ac felly nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi LU14 y CDLI

Yn ogystal, mae safle'r cais wedi'i leoli mewn man agored, amlwg, gyda golygfeydd yn ymestyn dros Ddyffryn Teifi a thu hwnt. Mi fydd y podiau wedi'u gosod yn agos at y grib ar lethr gogledd orllewinol sy'n wynebu'r dyffryn, a byddant i'w gweld o'r briffordd a thu hwnt. Mi allai lleoliad y podiau amharu ar olwg yr ardal a byddant yn elfen anodweddiadol o leoliad cefn gwlad agored, sydd heb ei ddatblygu fel arall. Mae paragraff 3.34 o Bolisi Cynllunio Cymru'n dweud, "*Rhaid cadw a gwella cefn gwlad, yn unol â datblygu cynaliadwy ac egwyddorion cynllunio cenedlaethol, ar gyfer ei werth fel tirwedd*". Ystyrir bod adeiladu llwybr mynediad newydd a 5 pod glampio mewn lleoliad gwledig agored, i ffwrdd o unrhyw adeiladau, yn gyfystyr â datblygu gwasgaredig o fewn cefn gwlad agored nad yw'n cadw nac yn gwella'r dirwedd, ac sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal. Mae'r datblygiad felly yn mynd yn groes i nodau polisïau cenedlaethol a pholisïau DM06 a DN17 y CDLI.

O ran ystyriaethau perthnasol eraill, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o bersbectif priffyrdd, draenio nac ecoleg. Am fod y safle'n agos at ACA Afon Teifi, cafodd y cynnig, gan gynnwys y trefniadau carthffosiaeth, ei sgrinio am ei botensial i gynyddu'r ffosffad a ollyngir i'r ACA. Daeth y TLSE a'r Asesiad Priodol i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr ACA.

Nodwyd y sylwadau o gefnogaeth a gwrthwynebiad gan drydydd partion.

Cyn adroddwyd y cais i'r Pwyllgor, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr asiant yn ceisio cyfiawnhau lleoliad y cais a pham na ellid ystyried safle arall yn nes at y fferm ynghyd â engreiffiau o geisiadau eraill â gymeradwywyd a oedd cryn bellter wrth y brif fferm.

Roedd y rhesymau a roddwyd yn erbyn ystyried safleoedd a oedd yn agosach at y fferm yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith fod tir sy'n nes at y fferm yn serth, yn gorsiog ac yn anaddas ar gyfer podiau. Darparwyd gwybodaeth hefyd a oedd yn ceisio dangos y byddai'r rhaid diystyru safleoedd sy'n agosach at Benlanwen oherwydd na allent gydymffurfio â gofynion CNC ynghylch gollyngiadau ffosffad. Fodd bynnag, ni ellid diystyru addasrwydd y safleoedd hyn heb gynnal ARhC.

Roedd y wybodaeth hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gyfraith achosion a oedd yn nodi nad oedd y testun ategol yn bolisi ac felly ni allai'r ACLI fynnu bod unrhyw gais yn gyfagos i'r fferm fel yr awgrymwyd yn y testun. Mewn ymateb, cydnabyddir na ellir ystyried y testun ategol fel polisi ei hun ond fel gwybodaeth ategol sy'n ceisio cynorthwyo dehongli'r polisi ei hun. Serch

Tudalen 22

hynny, nodir er nad yw'r testun ategol efallai'n rhan o'r polisi, mae PCC yn berthnasol wrth ystyried y cais ac yn nodi bod yn rhaid i unrhyw gynnig gydymffurfio â gofynion PCC a TAN6. Mae PCC a TAN6 yn nodi y dylai datblygiadau fod o fewn cyfaddailadau fferm ac nid mewn lleoliad cefn gwlad agored.

Rhif y Cais / Application Reference	A220454
Derbyniwyd / Received	21-06-2022
Y Bwriad / Proposal	Datblygiad Preswyl ar gyfer hyd at 3 annedd
Lleoliad Safle / Site Location	Tir ym mhentref Plwmp, Llandysul
Math o Gais / Application Type	Caniatâd cynllunio amlinellol - Cedwir Pob Mater / Rhai Materion
Ymgeisydd / Applicant	Mrs Mair Jenkins, Cwm Hedd, Y Barri, CF62 3BB
Asiant / Agent	Mrs Gwennan Jenkins (JMS Planning and Development), Hafan y Coed, Maeshyfryd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8AN

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae'r safle ar gyrion anheddiad Plwmp, ar hyd Heol Tandisgwylfa. Ymyl yr anheddiad yw'r eiddo cyfagos i'r gorllewin, a thŷ annedd ar ochr arall y ffordd i'r gogledd. Mae'r safle yn gae gyda glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol a chaiff ei ystyried yn rhan o gefn gwlad. Mae'r safle ar oledf ysgafn o'r gogledd i'r de.

Nid oes unrhyw hanes cynllunio perthnasol ar gyfer y safle hwn.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio amlinellol, gyda rhai materion wedi'u cadw, ar gyfer datblygiad preswyl ar y safle. Bydd ceisiadau Materion a Gedwir yn Ôl dilynol yn mynd i'r afael ag ymddangosiad, tirwedu, cynllun a graddfa. Cynigir hyd at 3 tŷ annedd yn cael eu cynnig, gan gynnwys 2 uned tai fforddiadwy.

Er nad yw cynlluniau adeiladu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r cais hwn, mae'r asiant wedi darparu'r paramedrau graddfa dangosol canlynol:

Uchder: 7m i 9.5m.

Lled ar hyd y prif weddlun: 8m i 12m

Dyfnnder: 8m i 10m.

Bydd mynediad, sy'n rhan o'r cais hwn, ar hyd y ffordd gyfagos, Heol Tandisgwylfa.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am ganiatâd cynllunio gael ei benderfynu yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae'r cynllun datblygu ar gyfer Ceredigion yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) a Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion, nid oes Cynllun Datblygu Strategol (CDS) wedi'i fabwysiadu ar gyfer y Canolbarth.

Er mai dyddiad gorffen y CDLI oedd 31 Mawrth 2022, hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer Ceredigion o hyd nes y bydd Cynllun Newydd yn cael ei fabwysiadu. Cymru'r Dyfodol yw'r ddogfen ddiweddaraf i fod yn rhan o hierarchaeth y cynlluniau datblygu a rhaid i'r holl ddatblygiadau fod yn unol â Cymru'r Dyfodol yn ogystal â pholisiâu perthnasol y CDLI*. Dylid nodi mai dim ond hanner y twf cyffredinol a ragwelwyd yn y CDLI sydd wedi'i wireddu yng nghyfnod y cynllun hyd yma ac felly mae cyfle i ddiwallu anghenion tai lle mae gofyniad yn parhau fel y nodwyd yn y ffigurau tai diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y CDLI.

*Yn unol â Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pe bai polisi yng nghynllun Cymru'r Dyfodol yn gwrthdaro â pholisi yn CDLI Ceredigion, yna dylid datrys y gwrthdaro o blaid y polisi sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun Cymru'r Dyfodol.

Polisiâu perthnasol Cymru'r Dyfodol:

Polisi 1 – Ble bydd Cymru yn tyfu

Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol

Tudalen 70

Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig

Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy

Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd

Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol

Polisi 25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth

Mae'r polisiâu canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt
- S05 Tai Fforddiadwy
- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai

Arall

- Canllawiau Cynllunio Atodol Cymuned a'r Gymraeg 2015
- Taflen Gymorth Canllawiau Cynllunio Atodol Cymuned a'r Gymraeg 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio CCC 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 2014
- Tafenni Cymorth Tai Fforddiadwy 2014

Polisi Cenedlaethol

- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)

Tudalen 71

- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision a ddiroddferir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol i bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, nac ydyw'n cael effaith arnynt, yn fwy nag unrhyw berson arall.

Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL 2021

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried sut gall eu penderfyniadau wella anghydraddoldeb o ran canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Rhodddwyd ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn gan roi sylw penodol i'r elfen o dai fforddiadwy dan sylw.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn i ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Cyngor Cymuned Llandysiliogogo

Dim gwrthwynebiad i'r datblygiad ond un sylw cyffredinol; lledu'r ffordd sy'n wynebu'r safle hwn i ddarparu ar gyfer traffig dwy ffordd a darparu llwybrau troed.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Dim gwrthwynebiad yn amodol ar osod amod sy'n sicrhau Cynllun Ysgrifenedig o Waith Ymchwil (WSI) yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a TAN 24.

Draenio

Dim gwrthwynebiad yn amodol ar amodau sy'n ymwneud â gorchudd hydraidd a draenio dŵr wyneb y bydd angen cymeradwyaeth SAB.

Priffyrdd

Tudalen 72

Dim gwrthwynebiad yn amodol ar amodau priffyrdd safonol yn ymwneud â gwelededd mynediad X ac Y, parcio a throï, dŵr wyneb ffo, goleuadau a safonau dylunio.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig fel y'i cyflwynwyd; fodd bynnag, bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau eithriad neu drwydded amgylcheddol ar gyfer y cyfleuster parod i drin carthion arfaethedig.

Ecoleg

Dim gwrthwynebiad yn destun amodau, sy'n ymwneud â gwrychoedd yn unol â pholisi DM20 o'r CDLI a gwelliannau bioamrywiaeth yn unol â Rhan 1 o Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

CASGLIAD

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi, os oes angen rhoi sylw i'r cynllun datblygu at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau cynllunio, rhaid i'r penderfyniad fod yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn nodi fel arall.

Egwyddor y datblygiad

Gan droi yn gyntaf at y CDLI, nodir bod maint a natur y datblygiad yn estyniad bach i bentref Plwmp sydd wedi'i ddynodi'n anheddiad cyswllt yn y CDLI, sy'n golygu bod gofyn i ddatblygiadau gael eu cyfyngu i ddarparu ar gyfer rhywfaint o'r newid disgwylidig i ddemograffeg y boblogaeth bresennol. Wrth ystyried hyn, mae'n bwysig nodi bod yr amcanestyniadau mwyaf diweddar o boblogaeth ac aelwydydd sy'n seiliedig ar 2018 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng tua 4,250 o bobl rhwng 2018 a 2043, o 72,992 i 68,745 gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer yr aelwydydd o tua 4,500, mae datganiad cyntaf canlyniadau cyfrifiad 2021 yn cadarnhau'r duedd hon. Felly, prin yw unrhyw angen sy'n weddill mewn llawer o aneddiadau lle mae datblygiadau wedi digwydd dros gyfnod y cynllun.

Felly mae polisi S01 yn ceisio cyfeirio datblygiadau i 'Ganolfannau Gwasanaethau' gan mai dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Ac mae Polisi S04 yn mynd i'r afael â datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill'.

O ran Plwmp, mae yn rhan o grŵp aneddiadau Ceinewydd ac mae'r ffigurau tai canlynol yn berthnasol:

Rhoddwyd ffigur twf tai cynaliadwy o 12% ar gyfer Plwmp yn y CDLI sy'n cyfateb i 5 uned a hyd yn hyn:

mae 5 wedi'u cwblhau

mae 1 uned wedi cael caniatâd ac yn disgwyl cael ei gwblhau

Mae hyn yn dangos nad oes unrhyw ofyniad yn weddill yn yr anheddiad.

Ar draws y grŵp aneddiadau, mae 110 o unedau wedi'u cwblhau ac mae gan 43 uned ganiatâd ond nid ydynt wedi'u cwblhau, ac ar draws Aneddiadau Cyswllt grŵp Aneddiadau Ceinewydd mae 60 wedi'u cwblhau ac mae caniatâd ar gyfer 11 sydd heb eu cwblhau felly mae aneddiadau cyswllt Ceinewydd wedi mynd y tu hwnt i'w lwfans sef 34 uned.

Felly, mae'r datblygiad hwn yn methu yn unol â pholisi S04 y CDLI a dim ond angen am dai fforddiadwy sydd heb ei ddiwallu yn yr ardal yn unol â pholisi S05 neu angen cyfiawn am uned TAN6 a ganiateir.

Gan droi nawr at ddogfen Cymru'r Dyfodol, Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) sy'n ceisio cyfeirio twf i'r canolfannau mwyaf cynaliadwy yn unol â'r egwyddorion strategol ar gyfer creu lleoedd. Gallai'r cynnig hwn gyfrannu at rai o'r Egwyddorion Strategol ar gyfer Creu Lleoedd a nodir yn y cynllun Cymru'r Dyfodol a'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy fel y'u nodir yn PCC yn y ffyrdd canlynol:

- Adeiladu lleoedd ar raddfa y gellir eu cerdded, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd
 - Er bod siop bentref fach/swyddfa bost a Ffestri Capel sydd o fewn pellter cerdded i bob pwrpas ym mhentref Plwmp, nid oes palmant o safle'r datblygiad na man croesi diogel ar gefnffordd yr A487 i gael mynediad i'r gwasanaethau ac felly mae'n methu â chyflawni'r egwyddorion creu lleoedd. Ac er ei fod ar brif lwybr bws gyda gwasanaeth bws bob 2 awr (dim bws ar ddydd Sul), mae'n dal i fod yn lleoliad sy'n dibynnu ar geir ar gyfer gwaith a chyfleusterau a gwasanaethau o ystyried mai prin yw'r gwasanaethau/cyfleoedd gwaith yn yr anheddiad.
- Darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau
 - Mae tai marchnad agored a thai fforddiadwy arfaethedig yn cyfrannu at y canlyniad hwn o greu lleoedd - fodd bynnag, o ystyried bod yr anheddiad wedi mynd y tu hwnt i'w lwfans twf cynaliadwy, dylid cyfeirio unrhyw angen

Tudalen 73

sy'n parhau yn y sir at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Mae'r canlyniad hwn ar gyfer creu lleoedd hefyd wedi'i fethu.

O ran cydymffurfio â chynllun Cymru'r Dyfodol, mae'r cynnig yn methu â chydymffurfio â gofynion twf cynaliadwy ac nid yw'n cydymffurfio'n ddigonol â'r canlyniadau creu lleoedd i orbwysu'r gwrthwynebiad polisi a nodwyd o dan y CDLI.

Mae'r cynnig yn gwrthdaro â'r strategaeth ddatblygu a hyrwyddir drwy'r CDLI a fabwysiadwyd. O'r herwydd, dim ond angen heb ei ddiwallu am dai fforddiadwy yn yr ardal yn unol â pholisi S05 neu angen am TAN6 y gellir ei ganiatáu. Fel y nodwyd uchod, mae gofyniad cyfyngedig o ran angen demograffig cyffredinol am dai marchnad agored a dylid cyfeirio unrhyw alw cyfyngedig sy'n bodoli at aneddiadau cynaliadwy. Er y byddai'r cynnig yn gwneud cyfraniad at Dai Fforddiadwy, mae gan anheddiad Plwmp eisoes 2 uned tai fforddiadwy sydd ar gael i ddiwallu anghenion lleol dybryd. Mae'n werth nodi bod un uned fforddiadwy yn yr anheddiad wedi cael ei farchnata am dros 12 mis heb unrhyw gynigion. Nid yw presenoldeb llwybr bws yn yr anheddiad yn gorbwysu'r gwrthdaro â pholisi lleol a chenedlaethol y mae'r cais hwn yn ei gynrychioli.

Ystyriaethau dylunio

O ystyried posibilïadau datblygu cyffredinol y safle, nid oes unrhyw resymau hysbys pam na fyddai'r safle'n cael ei ddatblygu. Gan fod y cais yn un amlinellol yn amodol ar Bolisi DM06 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad fod yn ddyluniad o safon uchel a chyfrannu'n gadarnhaol at ei gyd-destun; ac mae Polisi DM17 yn ceisio diogelu rhinweddau arbennig y dirwedd. Cyflwynir y cynnig yn amlinellol ac felly ymdrinnir yn fanwl â materion yn ymwneud â graddfa ac ymddangosiad yr anheddau fel rhan o gais Materion a Gedwir yn Ôl dilynol.

Mae dwy rodfa yn cael eu cynnig. Mae rhodfeydd preifat yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal ac mae parcio oddi ar y ffordd yn briodol yn y cyd-destun hwn. Felly nid yw'r cynnig sy'n gysylltiedig â mynediad yn anghyson â Pholisi DM06.

Mae Polisi LU02 yn nodi gofynion ar gyfer pob datblygiad preswyl. Mae'r cynnig yn darparu cymysgedd o opsiynau tai marchnad a thai fforddiadwy. Bydd egwyddorion Polisi LU02 yn cael sylw yn y cam Materion a Gedwir yn Ôl.

Amwynder preswyl

Gellid ymdrin ymhellach â materion manwl yn ymwneud ag effaith ar amwynder y meddianwyr cyfagos fel rhan o gais Materion a Gedwir yn Ôl, fodd bynnag, ystyrir y gellir cyflawni math derbynol o ddatblygiad ar y safle heb gael effaith andwyol sylweddol ar amwynder y meddianwyr cyfagos. Er bod ffenestri ar yr annedd i'r gorllewin yn wynebu'r safle, gan fod cynllun, graddfa ac ymddangosiad yn faterion a gedwir yn ôl yn y cynlluniau a gyflwynwyd, ni ellir asesu'n fanwl yr effaith ar ymyrraeth weledol. Felly, mae'r cynnig yn cyd-fynd â Maen Prawf 7 Polisi DM06.

Priffyrdd

Nid ydynt wedi gwrthwynebu'r cais ac maent wedi gofyn am amodau. Felly, gellir derbyn y cais fel un sy'n cydymffurfio â Pholisïau DM03 a DM04.

Ecoleg

Cyflwynwyd Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol sy'n cofnodi rhinweddau'r cae gwag a'i leoliad. Nid yw'r safle wedi'i leoli mewn ardal warchoddedig. Y safle gwarchoddedig agosaf yw Rhos Pîl-bach sydd fwy na 400m i'r gogledd.

Yn ôl yr asesiad, mae'r gwrych o amgylch y safle yn brin ei rywogaethau ac mae wedi gweld dyddiau gwell ac nid yw'n cael ei ddsbarthu fel gwrych arwyddocaol fel y'i diffinnir gan Reoliadau Perthi. Roedd yr asesiad yn nodi y gallai madfallod cyffredin fod yn byw yn y gwrych, fodd bynnag, ni ddylai fod angen cynnal arolygon pellach. Byddai cael gwared ar rannau ohono i wneud lle ar gyfer y mynediad felly yn cyd-fynd â Pholisïau DM14, DM15 neu DM20.

Roedd yr asesiad yn pennu bod y glaswelltir yn brin ei rywogaethau ac nad oedd ganddo arwyddocâd ecolegol. Byddai datblygiadau ar y safle felly yn cydymffurfio â Pholisïau DM14 a DM15.

Yn ôl yr asesiad, ni ddaethpwyd o hyd i frochfeydd na charthfeydd moch daear nac unrhyw arwyddion o dwrio am fwyd ar yr eiddo, sy'n golygu na fydd y cynnig yn effeithio ar foch daear. Yn ogystal, barnwyd bod y cae yn anaddas ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid gan nad oes unrhyw nodweddion dŵr. Felly, bydd y datblygiad yn cyd-fynd â Pholisïau DM14 a DM15.

Draenio

Nid yw dyluniadau'r anheddau wedi'u cynnig, fodd bynnag, yn ôl yr asiant, byddant o raddfa a dyluniad tebyg i'r anheddau i'r gorllewin a bydd dŵr wyneb yn cael ei gasglu drwy gasgenni dŵr a bydd suddfannau dŵr yn cael eu defnyddio hefyd. Bydd y cynnig yn amodol ar gymeradwyaeth SAB. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â Pholisi DM13.

Niwtraliaeth maethynnau

Tudalen 74

Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn achosi effeithiau niweidiol i gyfanrwydd cynefinoedd gwarchoddedig fel afon Teifi cyn rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r safle hwn y tu allan i ddalgylch y safle a nodwyd uchod. Gall y cais, o ran niwtraliaeth maethynnau, gael ei benderfynu'n ddiogel o ran Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) mewn perthynas ag ACA Afon Teifi.

Casgliad

I gloi, er y gellid datblygu'r safle, o ystyried y gwrthdaro â pholisïau lleol a chenedlaethol - y CDLI a Cymru'r Dyfodol, ni nodwyd unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n drech na'r angen i benderfynu ar y cais hwn yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae unrhyw wrthdaro â pholisïau yn canolbwyntio'n benodol ar y ffaith bod yr anheddiad a'r grŵp aneddiadau wedi mynd y tu hwnt i lefelau twf cynaliadwy a osodwyd yn erbyn cefndir o boblogaeth gyffredinol sy'n lleihau. Ac mae'r datblygiad ei hun yn methu â chyflawni gofynion creu lleoedd fel y'u hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol 2040. At hynny, ni welwyd tystiolaeth bod angen brys am dai fforddiadwy, yn wir mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymwybodol o uned fforddiadwy bresennol sy'n gallu darparu ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw angen brys yn yr anheddiad.

ARGYMHELLIAD:

Gwrthod am y rhesymau canlynol:

1. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed tai ar gyfer yr ardal eisoes. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn annerbyniol mewn egwyddor ac ni fyddai'n gyfystyr â datblygiad cynaliadwy yn groes i Bolisi S04.
2. Bydd lefel y datblygu yn yr anheddiad cyswllt a lleoliadau eraill yn mynd y tu hwnt i'r gofyn gan 4 anedd os cymeradwyir y cynnig, bu twf anghymesur yn yr anheddiad cyswllt a lleoliadau eraill o gymharu â Chanolfan Gwasanaethau Ceinewydd, ac nid oes rhagor o ddarpariaeth ar gyfer mwy o anheddau yn Anheddiad Cyswllt Plwmp. Mae'r polisi felly yn groes i Bolisi S04.
3. Nid yw'r cynllun arfaethedig yn cynnig datblygiad sy'n bodloni gofynion egwyddorion strategol creu lleoedd ac felly nid yw'n cydymffurfio â Pholisi 2 Cymru'r Dyfodol Y Cynllun Cenedlaethol 2040.
4. Mae'r ymgeisydd yn cynnig gwaredu dŵr wyneb i System Ddraenio Gynaliadwy ond nid yw wedi darparu manylion y safle a dyluniad y system arfaethedig i alluogi'r cais.

Tudalen 75

Rhif y Cais / Application Reference	A220454
Derbyniwyd / Received	21-06-2022
Y Bwriad / Proposal	Residential Development for up to 3 dwellings
Lleoliad Safle / Site Location	Land At Plwmp Plwmp, Llandysul
Math o Gais / Application Type	Outline Planning Permission - All/Some Matters Reserved
Ymgeisydd / Applicant	Mrs Mair Jenkins, Cwm Hedd, Y Barri, CF62 3BB
Asiant / Agent	Mrs Gwennan Jenkins (JMS Planning and Development), Hafan Y Coed, Maeshyfyd, Lampeter, SA48 8AN

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The site is located on the edge of the settlement of Plwmp, along Tandisgwylfa Road. The settlement edge is the neighbouring property to the west, and a dwelling house on the opposite side of the road to the north. The site is a field with agriculturally-improved grassland and is regarded as part of the countryside. The site gently slopes from north to south.

There is no relevant planning history for this site.

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks outline planning permission, with some matters reserved, for the residential development of the site. Subsequent Reserved Matters applications will address appearance, landscaping, layout and scale. Up to 3 dwelling houses are proposed, including 2 affordable housing units.

While building plans have not been submitted as part of this application, the agent has provided the following indicative scale parameters:

Height: 7m to 9.5m.

Width along main elevation: 8m to 12m

Depth: 8m to 10m.

Access, which forms part of this application, will be taken via the adjacent road, Tandisgwylfa Road.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, requires an application for planning permission to be determined in accordance with the development plan unless material considerations indicate otherwise.

The development plan for Ceredigion consists of Future Wales: The National Plan 2040 (Future Wales) and the Ceredigion Local Development Plan (LDP), no Strategic Development Plan (SDP) has been adopted for Mid Wales.

Whilst the end date of the LDP was 31st March 2022, it will continue to be the Development Plan for Ceredigion until a Replacement Plan is adopted. Future Wales is the latest document to be part of the development plans hierarchy and all development must be in accordance with Future Wales as well as the relevant policies of the LDP*. It should be noted that only half of the overall growth envisaged in the LDP has been realised in the plan period to date and there is therefore opportunity to meet housing needs where there is a remaining requirement as noted in the latest available LDP housing figures.

*In line with the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, should a policy in Future Wales conflict with a policy in the Ceredigion LDP, then the conflict should be resolved in favour of the policy contained within Future Wales.

Relevant Future Wales Policies:

Policy 1 – Where Wales will grow

Policy 2 – Shaping Urban Growth and Regeneration – Strategic Placemaking

Policy 4 – Supporting Rural Communities

Tudalen 76

Policy 7 – Delivering Affordable Homes

Policy 9 – Resilient Ecological Networks and Green Infrastructure

Policy 13 – Supporting Digital Communications

Policy 25 – Regional Growth Areas – Mid Wales

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements
- S05 Affordable Housing
- DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM05 Sustainable Development and Planning Gain
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM20 Protection of Trees, Hedgerows and Woodlands
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- LU06 Housing Density

Other

- Community and the Welsh Language SPG 2015
- Community and the Welsh Language SPG Help Sheet 2015
- CCC Parking Standards SPG 2015
- Built Environment and Design SPG 2015
- Nature Conservation SPG 2015
- Affordable Housing SPG 2014
- Affordable Housing help sheets 2014

National Policy

- Future Wales: The National Plan 2040

Tudalen 77

- Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN12 Design (2016)
- TAN18 Transport (2007)
- TAN2 Planning and Affordable Housing (2006)
- TAN20 Planning and the Welsh Language (2017)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

SOCIO ECONOMIC DUTY 2021

The socio-economic duty requires Local Authorities to consider how their decisions can improve inequality of outcome for people who suffer socio-economic disadvantage. The above duty has been given due consideration in determination of this application with specific regard to the element of affordable housing involved.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Llandysiliogogo Community Council

No objection to the development but one general comment; widen the road facing this site to accommodate 2-way traffic and provide footpaths.

Dyfed Archeological Trust

No objection subject to the imposition of a condition securing a Written Scheme of Investigation (WSI) in line with PPW and TAN 24.

Drainage

No objection subject to conditions relating to permeable surfacing and surface water drainage which will need SAB approval.

Highways

Tudalen 78

No objection subject to standard highways conditions relating to X and Y access visibility, parking and turning, surface water runoff, lighting and design standards.

Natural Resources Wales

We have no objection to the proposed development as submitted; however, the applicant will need to secure an exemption or environmental permit for the proposed PTP.

Ecology

No objection subject to conditions, relating to hedgerows in accordance with policy DM20 of the LDP and biodiversity enhancements in accordance with Part 1 Section 6 of the Environment (Wales) Act 2016.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

Principle of the development

Turning first to the LDP the scale and nature of the development is noted as a minor extension to Plwmp which in the LDP is designated as a linked settlement where it is required that development will be limited to providing for some of the expected demographic change within the existing population. In considering this it is important to note that the most recent 2018-based population and household projections suggests that Ceredigion's population will decline by approximately 4,250 people between 2018 and 2043, from 72,992 to 68,745 with a corresponding reduction in the number of households by roughly 4,500, the first release of the 2021 census results confirm this trend. Thus, there is limited remaining need in many settlements where development has occurred over the plan period.

Therefore policy S01 seeks to direct development to 'Service Centres' as these present the most sustainable locations. And Policy S04 addresses development in 'Linked Settlements' and 'Other Locations'.

In terms of Plwmp it is located within the New Quay settlement group and the following housing figures apply:

Plwmp was provided a sustainable housing growth figure of 12% in the LDP which equates to 5 units and to date:

5 have been completed

1 permitted unit awaiting completion

This demonstrates there is no remaining requirement in the settlement.

Across the settlement group 110 units have been completed and 43 units are outstanding consents, across the Linked Settlements of the New Quay Settlement group there have been 60 completions and there remains 11 outstanding consents so the linked settlements of New Quay have in total exceeded their allowance by 34 units.

This development therefore fails in accordance with policy S04 of the LDP and only unmet affordable housing need in the locality in line with policy S05 or a justified need for a TAN 6 unit is permitted.

Turning now to Future Wales The National Plan 2040 (Future Wales) which seeks to direct growth to the most sustainable centres in accordance with the strategic placemaking principles. This proposal may contribute to some of the Strategic Placemaking Principles as set out in Future Wales and the Sustainable Placemaking Outcomes as set out in PWW in the following ways:

- Building places at a walkable scale, with homes, local facilities and public transport within walking distance of each other
 - Whilst Plwmp has a small village shop/ post office and Capel Vestry which although could technically be walkable, there is no pavement from the development site or safe crossing location on the A487 trunk road to access the service and therefore fails to meet the placemaking principles. And whilst it is located on a main bus route with a bus service every 2 hrs (no bus on a Sunday). It is still a car dependent location for employment and facilities and services given there are limited services/ employment opportunities in the settlement.
- Providing a variety of housing types and tenures
 - Proposed open market and affordable housing contributes to this placemaking outcome- however given the settlement has exceeded its sustainable growth allowance and what remaining countywide need there it should be directed to the most sustainable settlements. This placemaking outcome is also failed.

Tudalen 79

In terms of compliance with Future Wales the proposal fails to comply with the requirements of sustainable growth and does not adequately comply with the placemaking outcomes to outweigh the policy objection identified under the LDP.

The proposal is in conflict with the development strategy promoted through the adopted LDP. As such only unmet affordable housing need in the locality in line with policy S05 or need for TAN 6 maybe permitted. As noted above there is limited requirement in terms of general demographic need for open market housing and what limited demand there it should be directed to sustainable settlements. Whilst the proposal would make a contribution to Affordable Housing, the settlement of Plwmp already has 2 affordable housing units which are available to meet immediate local needs. It is of note that one affordable unit in the settlement has been marketed for over 12 months with no offers. The presence of a bus route in the settlement does not outweigh the conflict with local and national policy this application represents.

Design considerations

Considering now the general developability of the site, there are no known reasons why the site would not be developable. As the application is in outline subject to Policy DM06 requiring development to be of a high-quality design and contribute positively to its context; and Policy DM17 seeks to protect the special qualities of the landscape. The proposal is submitted in outline and therefore matters relating to the dwellings' scale and appearance would be dealt with in detail as part of a subsequent Reserved Matters application.

2 driveways are proposed. Private driveways are within the character of the area and off-road parking is appropriate in this context. The proposal related to access is thus not inconsistent with Policy DM06.

Policy LU02 sets out requirements for all residential developments. The proposal provides a mixture of market and affordable housing options. Policy LU02 principles will be addressed in the Reserved Matters stage.

Residential amenity

Detailed matters relating to impact on the amenity of the nearby occupiers could be dealt with further as part of a Reserved Matters application, however it is considered that an acceptable form of development can be achieved on the site without having a significant adverse impact on the amenity of nearby occupiers. While there are windows on the dwelling to the west facing the site, as layout, scale and appearance are reserved matters the plans submitted the impact on visual intrusion cannot be assessed in detail. The proposal is thus consistent with Criterion 7 of Policy DM06.

Highways

Have not objected to the application and have requested conditions. The application can therefore be accepted as being compliant with Policies DM03 and DM04.

Ecology

A Preliminary Ecological Assessment has been submitted which documents the qualities of the vacant field and its location. The site is not located in a protected area. The nearest protected site is Rhos Pil-bach which is located over 400m to the north.

According to the assessment, the hedge surrounding the site to the north is species-poor and defunct and does not class as a significant hedge as defined by the Hedgerow Regulations. The assessment did state that there may be common lizards living in the hedge, however, no further surveys should be required. Removing portions of it to make way for the access would therefore be consistent with Policies DM14, DM15 or DM20.

The assessment deemed that the grassland is species-poor and of no ecological significance. Development on the site would therefore comply with Policies DM14 and DM15.

According to the assessment, no badger setts, latrines or any signs of foraging were found on the property, meaning badgers will not be affected by the proposal. In addition, the field was deemed to be unsuitable for reptiles and amphibians as there are no water features. The development will therefore be consistent with Policies DM14 and DM15.

Drainage

The designs of the dwellings have not been proposed, however, according to the agent, they will be of similar scale and design to the dwellings to the west and surface water collection via water butts as well as soakaways will be used. The proposal will be subject to SAB approval. This is to comply with Policy DM13.

Nutrient neutrality

The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 (as amended) (Habitats Regulations) require Local Planning Authorities to ensure that new development does not cause adverse impacts to the integrity of protected habitats such as

Tudalen 80

the river Teifi prior to granting planning permission. This site is located outside of the catchment area of the site identified above. The application can, with regards nutrient neutrality, be safely determined with regards the Conservation of Species Habitats Regulations 2017 (as amended) in relation to the Afon Teifi SAC.

Conclusion

In conclusion whilst the site is capable of development, given the conflict with local and national policy - the LDP and Future Wales, no material considerations have been identified that outweigh the need to determine this application in accordance with the adopted development plan. Conflicts with policy specifically focus on the fact that the settlement and the settlement group have exceeded sustainable growth levels set against the backdrop of an overall declining population. And the development itself fails to achieve the requirements of placemaking as outlined in PPW and FW 2040. Furthermore, the immediate need for affordable housing has not been evidenced, indeed the LPA are aware of an existing affordable unit that is currently capable of accommodating any immediate need in the settlement.

RECOMMENDATION:

Refuse for the following reasons:

1. The housing target for the area has been exceeded. The proposed development is therefore unacceptable in principle and would not constitute sustainable development contrary to Policy S04.
2. The level of development within the linked settlement and other locations will be exceeded by 4 dwellings if the proposal is approved, there has been a disproportionate amount of growth within the linked settlement and other locations compared to the New Quay Service Centre, and there is no further provision for more dwellings within the Plwmp Linked Settlement. The policy is therefore contrary to Policy S04.
3. The proposal does not propose development that meets the requirements of strategic placemaking principles and therefore does not comply with Policy 2 of Future Wales The National Plan 2040.
4. The applicant proposes to dispose of surface water into a Sustainable Drainage System (SuDS) but has not provided details of the site and design of the proposed system to enable the application.

2.6. A220714



Tudalen 82

Rhif y Cais / Application Reference	A220714
Derbyniwyd / Received	26-09-2022
Y Bwriad / Proposal	Dymchwel y siop gynnyrch bresennol ac adeiladu siop newydd a fflat llawr cyntaf yn ei lle.
Lleoliad Safle / Site Location	Siop Gynnyrch Parc y Pant, Cross Inn, Ceinewydd. SA44 6NG
Math o Gais / Application Type	Cynllunio llawn
Ymgeisydd / Applicant	Mr Matthew Vaux, Siop Gynnyrch Parc Y Pant, Cross Inn, Ceinewydd, SA44 6NG
Asiant / Agent	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan Y Dderwen Llanrhystud, Aberystwyth, SY23 5ED

Y SAFLE A'R HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at Siop Gynnyrch Parc y Pant sydd wedi'i lleoli yn Cross Inn - anheddiad sy'n gysylltiedig â Chanolfan Gwasanaethau Gwledig Ceinewydd, fel y'i diffinnir gan y CDLI.

Does dim hanes cynllunio diweddar ar y safle.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer dymchwel y siop gynnyrch bresennol a chodi adeilad deulawr newydd yn ei lle ar yr ôl troed presennol gan ychwanegu estyniad dau lawr yn y cefn, gyda'r siop ar y llawr gwaelod a fflat marchnad agored 2 ystafell wely ar y llawr cyntaf.

Mae'r adeilad presennol wedi'i adeiladu o ddalennau metel gyda tho metel rhychog a dwy ffenestr yn y to ar bob goleddf. Er bod yr adeilad ar uchder deulawr nodweddiadol o'r tu allan, nid oes lefel llawr cyntaf wedi'i darparu oddi mewn iddi gyda'r siop wedi'i lleoli ar lefel y ddaear gyda gwagle uwchben. Mae'r adeilad yn dioddef o rwd a thraul gyffredinol.

Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn cyfateb i raddau helaeth i'r adeilad presennol o ran maint ar ei brif wedd, gydag ychwanegiad cymedrol i'w led (1m) a chynnydd cymedrol i uchder y grib er mwyn gwneud lle i'r llawr cyntaf (0.025m). Bydd yr adeilad arfaethedig yn cael ei orffen mewn rendr llyfn wedi'i baentio gyda drysau a ffenestri uPVC gwyn, ei do wedi'i orffen â llechen naturiol Iberaidd o Sbaen, a chynigir gosod paneli solar ar oleddf cefn yr adeilad a fydd yn wynebu tua'r gorllewin. Ym mhrif ardal y llawr gwaelod lleolir y siop gyda chegin, toiled a storfa yn y cefn.

Bydd yr estyniad cefn arfaethedig yn ymestyn ~ 6.2m o'r wedd gefn ac yn darparu mynediad trwy risiau i'r fflat ar y llawr cyntaf - sydd i gynnwys cegin ac ystafell fyw, un ystafell wely en-suite, 2il ystafell wely ac ystafell ymolchi ar draws ~ 80 metr sgwâr o ofod llawr y gellir ei ddefnyddio. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gyflwyno'r cais yn nodi bod bwriad cynnig y fflat i'w rentu ar y farchnad agored i gyfiawnhau ailddatblygu'r adeilad a chefnogi'r busnes manwerthu yn ariannol yn y dyfodol.

Bydd pedwar lle parcio ar gael yng nghefn yr adeilad.

Mae carthffosydd budr i'w cysylltu â'r brif garthffos.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am ganiatâd cynllunio gael ei benderfynu yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Mae'r cynllun datblygu ar gyfer Ceredigion yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) a Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLI), nid oes Cynllun Datblygu Strategol (CDD) wedi'i fabwysiadu ar gyfer Canolbarth Cymru.

Er mai dyddiad gorffen y CDLI oedd 31 Mawrth 2022, bydd yn parhau i fod y Cynllun Datblygu ar gyfer Ceredigion nes y bydd Cynllun Newydd yn cael ei fabwysiadu. Cymru'r Dyfodol yw'r ddogfen ddiweddaraf i fod yn rhan o hierarchaeth y cynlluniau datblygu a rhaid i'r holl ddatblygiadau fod yn unol â Chymru'r Dyfodol yn ogystal â pholisïau perthnasol y CDLI*.

Tudalen 83

Dylid nodi mai dim ond hanner y twf cyffredinol a ragwelwyd yn y CDLI sydd wedi'i wireddu yng nghyfnod y cynllun hyd yma ac felly mae cyfle i ddiwallu anghenion tai lle mae gofyniad sy'n weddill fel y nodwyd yn y ffigurau tai CDLI diweddaraf sydd ar gael.

*Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pe bai polisi yng nghynllun Cymru'r Dyfodol yn gwrthdaro â pholisi yn CDLI Ceredigion, yna dylid datrys y gwrthdaro o blaid y polisi sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun Cymru'r Dyfodol.

Polisiâu perthnasol Cymru'r Dyfodol:

- Polisi 1 – Ble bydd Cymru yn tyfu
- Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol
- Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig
- Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig
- Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy
- Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd
- Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol
- Polisi 25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth

Polisi Cenedlaethol Perthnasol:

- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN20 Cynllunio a'r Gymraeg

Mae'r polisiâu Cynllun Datblygu Lleol hyn yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoedd Eraill
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU18 Cynigion Manwerthu Ledled y Sir
- LU22 Darpariaeth Gymunedol
- DM01 Y Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirwedd
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio CSC 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 2014

YSTYRIAETHAU ERAILL PERTHNASOL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;

Tudalen 84

- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl sydd mewn grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol i bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, nac ydyw'n cael effaith arnynt, yn fwy nag unrhyw berson arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn i ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL 2021

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried sut y gall eu penderfyniadau wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantaes economaidd-gymdeithasol. Rhodddwyd ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn gan roi sylw penodol i'r elfen o dai fforddiadwy dan sylw.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Llanllwchaearn: Dim gwrthwynebiad

Priffyrdd: Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Draeniad Tir: Priffordd gyfagos sydd â risg isel o lifogydd dŵr wyneb. Argymhellir amodau. Mae angen cymeradwyaeth Systemau Draenio Cynaliadwy.

Ecoleg: Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru: Dim gwrthwynebiad yn destun amodau + Nodiadau Cynghori wedi'u darparu.

Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaeth gan drydydd parti.

CASGLIAD

Egwyddor Datblygu

Codi uned manwerthu newydd yn lle'r un bresennol

Mae'r adeilad presennol yn darparu cyfleusterau cyfyngedig ac yn cael effaith negyddol ar gymeriad gweledol yr ardal leol.

Mae Polisi LU18 y CDLI yn ceisio sicrhau bod newid defnydd, datblygu neu ailddatblygu defnydd manwerthu neu fasnachol yn briodol yn eu cyd-destun - gan ei gwneud yn ofynnol yn unol ag S02-S04 i ystyried effaith debygol y cynnig ar ddarpariaeth bresennol yn y Ganolfan Wasanaethau agosaf, ac na fyddai'n achosi gorgyflenwad materol o ddarpariaeth yn y Ganolfan Wasanaethau berthnasol neu'r Anheddiad Cyswllt perthnasol. Nid yw meini prawf 4 a 5 y polisi yn berthnasol yn yr achos hwn.

Mae Polisi LU22 y CDLI yn ceisio amddiffyn a gwella'r ddarpariaeth gymunedol drwy gefnogi darpariaeth gynaliadwy newydd neu wrthsefyll colli darpariaeth bresennol.

Ystyrir bod codi adeilad modern sy'n darparu cyfleusterau modern yn lle'r adeilad presennol yn gwella'r ddarpariaeth bresennol ac mae'n gyfle i ehangu'r gwasanaethau yn gymedrol oherwydd arwynebedd llawr manwerthu mwy - a fydd yn cynyddu o 46 metr sgwâr i 80 metr sgwâr. Nodir hefyd y bydd y datblygiad yn cynyddu cyfleoedd gwaith, gan ychwanegu 1 swydd lawn amser at y swydd ran-amser bresennol.

Gwelir bod y datblygiad yn cyd-fynd â meini prawf perthnasol S04 am ei fod ar raddfa fach ac wedi'i leoli'n briodol yn yr anheddiad. Ystyrir hefyd ei fod yn annhebygol iawn o gael unrhyw effaith niweidiol ar swyddogaeth fanwerthu'r Ganolfan Wasanaethau agosaf (Ceinewydd) gan mai megis gwella'r ddarpariaeth bresennol y mae'r cynnig, ac felly nid yw chwaith yn achosi pryder am unrhyw orgyflenwad yn Cross Inn.

Tudalen 85

Gwelir felly bod y datblygiad yn hwyluso gwella'r ddarpariaeth fanwerthu bresennol yn Cross Inn, yn unol â pholisïau S04, LU18 ac LU22.

Uned Breswyl Arfaethedig

Nodir maint a natur y datblygiad fel mewnlenni yn Cross Inn (Ceinewydd) sydd wedi'i ddynodi'n Anheddiad Cyswllt gan y CDLI, lle bydd datblygu yn gyfyngedig i ddarparu ar gyfer rhywfaint o'r newid demograffig disgwyledig yn y boblogaeth bresennol*.

*Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd mwyaf diweddar yn 2018 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng o ryw 4,250 o bobl rhwng 2018 a 2043, o 72,992 i 68,745 gyda gostyngiad cyfatebol o oddeutu 4,50 yn nifer yr aelwydydd - mae datganiad cyntaf canlyniadau cyfrifiad 2021 yn cadarnhau'r duedd hon.

Mae Polisi S01 yn ceisio cyfeirio datblygu i 'Ganolfannau Gwasanaethau' gan mai'r rhain sy'n cyflwyno'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy tra bod Polisi S04 yn mynd i'r afael â datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill'.

O ran Cross Inn (Ceinewydd) mae wedi'i leoli yng ngrŵp anheddiad Ceinewydd ac mae'r ffigurau tai canlynol yn berthnasol:

